

## HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 22 Medi 2020  
Tabled on 22 September 2020

### Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Local Government and Elections (Wales) Bill

**Julie James** 92

Section 13, page 8, leave out lines 9 to 11.

Adran 13, tudalen 8, hepgorer llinellau 9 hyd at 11.

**Julie James** 93

Section 13, page 8, after line 11, insert—

- '() Rules made by the Welsh Ministers may, for the purposes of, in consequence of, or for giving full effect to rules made under subsection (1), make supplementary, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provision.
- () Rules under subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) may amend, modify, repeal or revoke any enactment (including an enactment contained in this Act).'

Adran 13, tudalen 8, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

- '() Rules made by the Welsh Ministers may, for the purposes of, in consequence of, or for giving full effect to rules made under subsection (1), make supplementary, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provision.
- () Rules under subsection (*[yr is-adran gyntaf sy'n cael ei mewnosod gan y gwelliant hwn]*) may amend, modify, repeal or revoke any enactment (including an enactment contained in this Act).'



**Julie James** 94

Section 24, page 17, leave out lines 17 to 22.

Adran 24, tudalen 17, hepgorer llinellau 17 hyd at 22.

**Julie James** 95

Section 58, page 33, leave out lines 14 to 15.

Adran 58, tudalen 33, hepgorer llinellau 15 hyd at 16.

**Julie James** 96

Page 34, line 34, leave out section 60.

Tudalen 34, llinell 34, hepgorer adran 60.

**Julie James** 97

Section 73, page 42, line 1, leave out 'means a body corporate established by joint committee regulations (for the purpose of exercising, in respect of two or more principal areas, the functions specified in the regulations, which must be functions of a principal council or a strategic planning panel)' and insert 'has the meaning given in section [section to be inserted by Amendment 105](1) and section [section to be inserted by Amendment 107](1) (and means a body corporate established by joint committee regulations for the purpose of exercising, in relation to two or more principal areas, a function specified in the regulations)'.

Adran 73, tudalen 42, hepgorer llinellau 3 hyd at 6 a mewnosoder –

'mae i "cyd-bwyllgor corfforedig" ("corporate joint committee") yr ystyr a roddir yn adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 105](1) ac adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 107](1) (ac mae'n golygu corff corfforedig a sefydlir gan reoliadau cyd-bwyllgor at ddiben arfer, mewn perthynas â dwy brif ardal neu ragor, swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau)'.

**Julie James** 98

Section 73, page 42, after line 4, insert –

"economic well-being function" ("swyddogaeth llesiant economaidd") is to be interpreted in accordance with section [section to be inserted by Amendment 112]:'.

Adran 73, tudalen 42, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'mae "swyddogaeth llesiant economaidd" ("economic well-being function") i'w ddehongli yn unol ag adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 112]:'.



**Julie James**

**99**

Section 73, page 42, after line 10, insert –

“National Park authority” (“*awdurdod Parc Cenedlaethol*”) means a National Park authority for a National Park in Wales;’.

Adran 73, tudalen 41, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

‘ystyr “awdurdod Parc Cenedlaethol” (“*National Park authority*”) yw awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;’.

**Julie James**

**100**

Section 73, page 42, line 14, leave out “strategic planning panel” (“panel cynllunio strategol”) has the same meaning as in Part 6’ and insert “strategic development plan” (“*cynllun datblygu strategol*”) has the meaning given in section 60M[*The third section to be inserted by paragraph 4 of the Schedule to be inserted by Amendment 155*]’.

Adran 73, tudalen 42, llinell 7, hepgorer “panel cynllunio strategol” yr un ystyr ag a roddir i “strategic planning panel” yn Rhan 6’ a mewnosoder “cynllun datblygu strategol” (“*strategic development plan*”) yr ystyr a roddir i “strategic development plan” yn adran 60M[*y drydedd adran sy’n cael ei mewnosod gan baragraff 4 o’r Atodlen sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 155*]’.

**Julie James**

**101**

Section 74, page 42, line 36, leave out ‘respect of’ and insert ‘relation to’.

Adran 74, tudalen 42, llinell 37, hepgorer ‘cysylltiad’ a mewnosoder ‘perthynas’.

**Julie James**

**102**

Section 75, page 43, line 9, leave out ‘a function or functions in respect of the principal areas of those councils’ and insert –

- ‘(a) a function of those councils;
  - (b) the economic well-being function,
- in relation to the principal areas of those councils’.

Adran 75, tudalen 43, llinell 9, hepgorer ‘swyddogaeth neu swyddogaethau mewn cysylltiad â phrif ardaloedd y cynghorau hynny’ a mewnosoder –

- ‘(a) swyddogaeth i’r cynghorau hynny;
  - (b) y swyddogaeth llesiant economaidd,
- mewn perthynas â phrif ardaloedd y cynghorau hynny’.



**Julie James** 103

Section 75, page 43, line 11, leave out subsection (2).

Adran 75, tudalen 43, llinell 11, hepgorer is-adran (2).

**Julie James** 104

Section 76, page 43, after line 19, insert –

‘( ) the National Park authority for a National Park, any part of which is in the area of any of the principal councils,’.

Adran 76, tudalen 43, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘( ) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal unrhyw un neu ragor o’r prif gynghorau,’.

**Julie James** 105

Page 43, line 27, leave out section 77 and insert –

**[ ] Requested joint committee regulations**

- (1) The Welsh Ministers may by regulations establish a body corporate (to be known as a corporate joint committee) to exercise, in relation to the principal areas of the principal councils that made the joint committee application (“the relevant councils”), a function specified in the regulations.
- (2) But the Welsh Ministers may make regulations under this section only if the conditions set out in section 78 are satisfied.
- (3) Regulations under this section may specify only –
  - (a) a function of the principal councils that made the application;
  - (b) the economic well-being function.
- (4) Regulations under this section which specify a function of a principal council must make provision so that the function is either –
  - (a) exercisable by the corporate joint committee instead of by the relevant councils, or
  - (b) exercisable concurrently by the corporate joint committee and the relevant councils.
- (5) A function of a principal council may be specified in regulations under this section by reference to a particular activity or activities.’.

Tudalen 43, llinell 29, hepgorer adran 77 a mewnosoder –

**[ ] Rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu corff corfforedig (a elwir yn gyd-bwyllgor corfforedig) i arfer, mewn perthynas â phrif ardaloedd y prif gynghorau a wnaeth y cais cyd-bwyllgor (“y cynghorau perthnasol”), swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau.



- (2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon onid yw'r amodau a nodir yn adran 78 wedi eu bodloni.
- (3) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon ond pennu –
  - (a) swyddogaeth i'r prif gynghorau a wnaeth y cais;
  - (b) y swyddogaeth llesiant economaidd.
- (4) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon sy'n pennu swyddogaeth prif gyngor wneud darpariaeth fel bod y swyddogaeth naill ai –
  - (a) yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig yn hytrach na chan y cynghorau perthnasol, neu
  - (b) yn arferadwy yn gydredol gan y cyd-bwyllgor corfforedig a'r cynghorau perthnasol.
- (5) Caniateir i swyddogaeth prif gyngor gael ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran hon drwy gyfeirio at weithgaredd neu weithgareddau penodol.'.

**Julie James**

106

Section 78, page 44, after line 25, insert –

'( ) the National Park authority for a National Park, any part of which is in the area of any of the principal councils,'.

Adran 78, tudalen 44, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

'( ) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal unrhyw un neu ragor o'r prif gynghorau,'.

**Julie James**

107

Page 45, line 4, leave out section 79 and insert –

**[ ] Joint committee regulations where no request has been made**

- (1) The Welsh Ministers may by regulations establish a body corporate (to be known as a corporate joint committee) to exercise, in relation to the principal areas specified in the regulations ("the relevant areas"), a function specified in the regulations.
- (2) But the Welsh Ministers may make regulations under this section only if the conditions set out in section 80 are satisfied.
- (3) Regulations under this section may specify only –
  - (a) a function of the principal councils for the relevant areas that relates to –
    - (i) improving education;
    - (ii) transport;
  - (b) the function of preparing a strategic development plan (as to which, see subsection (4));
  - (c) the economic well-being function.



- (4) Where the function of preparing a strategic development plan is specified in joint committee regulations, Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5) applies to the corporate joint committee.
- (5) Regulations under this section which specify a function of a principal council must make provision so that the function is either –
  - (a) exercisable by the corporate joint committee instead of by the principal councils for the relevant areas, or
  - (b) exercisable concurrently by the corporate joint committee and those principal councils.
- (6) A function of a principal council may be specified in regulations under this section by reference to a particular activity or activities.’.

Tudalen 45, llinell 4, hepgorer adran 79 a mewnosoder –

**[ ] Rheoliadau cyd-bwyllgor pan na fo cais wedi ei wneud**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu corff corfforedig (a elwir yn gyd-bwyllgor corfforedig) i arfer, mewn perthynas â’r prif ardaloedd a bennir yn y rheoliadau (“yr ardaloedd perthnasol”), swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau.
- (2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon onid yw’r amodau a nodir yn adran 80 wedi eu bodloni.
- (3) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon ond pennu –
  - (a) swyddogaeth y prif gynghorau ar gyfer yr ardaloedd perthnasol sy’n ymwneud ag –
    - (i) gwella addysg;
    - (ii) trafnidiaeth;
  - (b) y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol (gweler is-adran (4) ynglŷn â hynny);
  - (c) y swyddogaeth llesiant economaidd.
- (4) Pan bennir y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol mewn rheoliadau cyd-bwyllgor, mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) yn gymwys i’r cyd-bwyllgor corfforedig.
- (5) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon sy’n pennu swyddogaeth prif gyngor wneud darpariaeth fel bod y swyddogaeth naill ai –
  - (a) yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig yn hytrach na chan y prif gynghorau ar gyfer yr ardaloedd perthnasol, neu
  - (b) yn arferadwy yn gydedol gan y cyd-bwyllgor corfforedig a’r prif gynghorau hynny.
- (6) Caniateir i swyddogaeth prif gyngor gael ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran hon drwy gyfeirio at weithgaredd neu weithgareddau penodol.’.



**Julie James** 108

Section 80, page 45, line 32, leave out 'the proposal to make regulations under section 79, and on a draft of those' and insert 'a draft of the'.

Adran 80, tudalen 45, llinell 33, hepgorer 'y cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 79, ac ar ddrafft o'r rheoliadau hynny' a mewnosoder 'ddrafft o'r rheoliadau'.

**Julie James** 109

Section 80, page 45, after line 36, insert—

- ( ) the National Park authority for a National Park, any part of which is in the area of any of the principal councils,'.

Adran 80, tudalen 45, ar ôl llinell 37, mewnosoder—

- ( ) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal unrhyw un neu ragor o'r prif gynghorau,'.

**Julie James** 110

Section 80, page 46, line 9, after 'regulations', insert—

, and

- (b) if the regulations specify the function of preparing a strategic development plan, the National Park authority for a National Park any part of which is in any of the principal areas to be specified in the regulations'.

Adran 80, tudalen 46, llinell 10, ar ôl 'rheoliadau', mewnosoder—

, a

- (b) os yw'r rheoliadau yn pennu'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, i'r awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn unrhyw un neu ragor o'r prif ardaloedd sydd i'w pennu yn y rheoliadau'.

**Julie James** 111

Section 80, page 46, after line 9, insert—

- (4) The first condition may be satisfied by consultation undertaken before the coming into force of this section.'

Adran 80, tudalen 46, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

- (4) Gellir bodloni'r amod cyntaf drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym.'





**Julie James**

**112**

Page 46, after line 12, insert a new section –

*‘Promotion and improvement of economic well-being*

**[ ] Economic well-being function**

- (1) A corporate joint committee which has been granted the economic well-being function may do anything which it considers is likely to promote or improve the economic well-being of its area.
- (2) The economic well-being function may be exercised in relation to or for the benefit of –
  - (a) the whole or any part of the corporate joint committee’s area;
  - (b) all or any persons resident or present in its area.
- (3) The economic well-being function includes power to do anything in relation to, or for the benefit of, any person or area situated outside the corporate joint committee’s area, including areas outside Wales, if the corporate joint committee considers that it is likely to promote or improve the economic well-being of its area.
- (4) Subsections (1) to (3) are subject to any prohibition, restriction or other limitation on the exercise of the economic well-being function as may be provided for in joint committee regulations or regulations under section 83(2).’.

Tudalen 46, ar ôl llinell 13, mewnosoder adran newydd –

*‘Hybu a gwella llesiant economaidd*

**[ ] Y swyddogaeth llesiant economaidd**

- (1) Caiff cyd-bwyllgor corfforedig y rhoddwyd y swyddogaeth llesiant economaidd iddo wneud unrhyw beth y mae’n ystyried ei fod yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd ei ardal.
- (2) Caniateir i’r swyddogaeth llesiant economaidd gael ei harfer mewn perthynas â’r canlynol neu er budd y canlynol –
  - (a) ardal gyfan y cyd-bwyllgor corfforedig neu unrhyw ran ohoni;
  - (b) yr holl bersonau neu unrhyw bersonau sy’n preswyllo neu’n bresennol yn ei ardal.
- (3) Mae’r swyddogaeth llesiant economaidd yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw beth mewn perthynas ag unrhyw berson neu ardal, neu er budd unrhyw berson neu ardal, a leolir y tu allan i ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, gan gynnwys ardaloedd y tu allan i Gymru, os yw’r cyd-bwyllgor corfforedig yn ystyried ei fod yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd ei ardal.
- (4) Mae is-adrannau (1) i (3) yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiad, cyfyngiad neu derfyn arall ar arfer y swyddogaeth llesiant economaidd y darperir ar ei gyfer mewn rheoliadau cyd-bwyllgor neu reoliadau o dan adran 83(2).’.





**Julie James** 113

Section 81, page 46, line 16, leave out 'respect of which the corporate joint committee exercises functions' and insert 'the area of the corporate joint committee'.

Adran 81, tudalen 46, llinell 18, hepgorer 'y mae'r cyd-bwyllgor corfforedig yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â hwy' a mewnosoder 'yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig'.

**Julie James** 114

Section 81, page 46, after line 17, insert—

- '() Where the function of preparing a strategic development plan is specified in joint committee regulations and any part of a National Park is in the area of the corporate joint committee, the regulations must make provision about the membership of the committee by the National Park authority for that National Park.'

Adran 81, tudalen 46, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

- '() Pan fo'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol wedi ei phennu mewn rheoliadau cyd-bwyllgor a bod unrhyw ran o Barc Cenedlaethol yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch aelodaeth yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y Parc Cenedlaethol hwnnw o'r pwyllgor.'

**Julie James** 115

Section 81, page 46, line 19, leave out 'subsection (1)' and insert 'subsections (1) and (2)'.

Adran 81, tudalen 46, llinell 21, hepgorer 'is-adran (1)' a mewnosoder 'is-adrannau (1) a (2)'.

**Julie James** 116

Section 81, page 46, after line 26, insert—

- '() powers of a corporate joint committee to exercise, on behalf of any person, any functions of that person;
- () powers of a corporate joint committee to exercise its functions, other than functions under Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5), jointly, or otherwise in collaboration, with another person;
- () powers of a corporate joint committee to provide staff, goods, services or accommodation to any person;'

Adran 81, tudalen 46, ar ôl llinell 27, mewnosoder—

- '() pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i arfer, ar ran unrhyw berson, unrhyw swyddogaethau sydd gan y person hwnnw;
- () pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i arfer ei swyddogaethau, ac eithrio swyddogaethau o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), ar y cyd, neu drwy gydweithio fel arall, â pherson arall;



- ( ) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson;’.

**Julie James**

**117**

Section 81, page 46, after line 33, insert –

- ‘( ) powers of a corporate joint committee to do for a commercial purpose anything it may do in the exercise of its functions;’.

Adran 81, tudalen 46, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- ‘( ) pwerau cyd-bwyllgor corfforedig i wneud, at ddiben masnachol, unrhyw beth y caiff ei wneud wrth arfer ei swyddogaethau;’.

**Julie James**

**118**

Section 81, page 47, line 5, leave out ‘respect of which the corporate joint committee exercises functions’ and insert ‘the area of a corporate joint committee’.

Adran 81, tudalen 47, llinell 5, hepgorer ‘y mae’r cyd-bwyllgor corfforedig yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef’ a mewnosoder ‘yn ardal cyd-bwyllgor corfforedig’.

**Julie James**

**119**

Section 81, page 47, after line 6, insert –

- ‘(iii) if the joint committee regulations specify the function of preparing a strategic development plan, the National Park authority for a National Park any part of which is in the area of a corporate joint committee;’.

Adran 81, tudalen 47, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- ‘(iii) os yw’r rheoliadau cyd-bwyllgor yn pennu’r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal cyd-bwyllgor corfforedig;’.

**Julie James**

**120**

Page 47, after line 15, insert a new section –

**[ ] Application by principal councils to amend or revoke joint committee regulations**

- (1) The principal councils for the principal areas in a corporate joint committee’s area may jointly make an application to the Welsh Ministers, asking them to consider making regulations under section [section to be inserted by Amendment 122] to amend or revoke the joint committee regulations which established the corporate joint committee.
- (2) But an application under this section may not ask the Welsh Ministers to consider –
  - (a) amending joint committee regulations to specify a function unless it is –
    - (i) a function of the councils making the application;



- (ii) the economic well-being function;
  - (b) amending regulations made under section [section to be inserted by Amendment 107] (joint committee regulations where no request has been made) so as to –
    - (i) omit or modify a function which relates to improving education or transport;
    - (ii) omit the function of preparing a strategic development plan;
    - (iii) omit the economic well-being function or impose, modify or omit a prohibition, restriction or other limitation on the exercise of that function;
  - (c) revoking regulations made under section [section to be inserted by Amendment 107].
- (3) An application under this section asking the Welsh Ministers to consider amending joint committee regulations so as to specify a principal area (so that the corporate joint committee will exercise a function in relation to that area) may not be made unless the principal council for that area is one of the applicants.’.

Tudalen 47, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Cais gan brif gynghorau i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor**

- (1) Caiff y prif gynghorau ar gyfer y prif ardaloedd yn ardal cyd-bwyllgor corfforedig wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 122] i ddiwygio neu ddirymu'r rheoliadau cyd-bwyllgor a sefydlodd y cyd-bwyllgor corfforedig.
- (2) Ond ni chaiff cais o dan yr adran hon ofyn i Weinidogion Cymru ystyried –
  - (a) diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth –
    - (i) onid yw honno yn swyddogaeth i'r cynghorau sy'n gwneud y cais;
    - (ii) onid honno yw'r swyddogaeth llesiant economaidd;
  - (b) diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 107] (rheoliadau cyd-bwyllgor pan na fo cais wedi ei wneud) er mwyn –
    - (i) hepgor neu addasu swyddogaeth sy'n ymwneud â gwella addysg neu drafnidiaeth;
    - (ii) hepgor y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol;
    - (iii) hepgor y swyddogaeth llesiant economaidd neu osod, addasu neu hepgor gwaharddiad, cyfyngiad neu derfyn arall ar arfer y swyddogaeth honno;
  - (c) dirymu rheoliadau a wnaed o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 107].
- (3) Ni chaniateir gwneud cais o dan yr adran hon yn gofyn i Weinidogion Cymru ystyried diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu prif ardal (fel y bydd y cyd-bwyllgor corfforedig yn arfer swyddogaeth mewn perthynas â'r ardal honno) oni fo'r prif gyngor ar gyfer yr ardal honno yn un o'r ceiswyr.’.



**Julie James**

**121**

Page 47, after line 15, insert a new section –

**[ ] Further provision in relation to applications**

- (1) Before making an application under section [section to be inserted by Amendment 120] the principal councils must consult such persons as they consider appropriate.
- (2) If, following the receipt of an application under section [section to be inserted by Amendment 120], the Welsh Ministers decide not to make regulations under section [section to be inserted by Amendment 122], the Welsh Ministers must notify the principal councils that made the application.’.

Tudalen 47, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Darpariaeth bellach mewn perthynas â cheisiadau**

- (1) Cyn gwneud cais o dan adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 120] rhaid i’r prif gynghorau ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu, ar ôl cael cais o dan adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 120], peidio â gwneud rheoliadau o dan adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 122], rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu’r prif gynghorau a wnaeth y cais.’.

**Julie James**

**122**

Page 47, line 17, leave out section 82 and insert –

**[ ] Amendment and revocation of joint committee regulations**

- (1) The Welsh Ministers may by regulations amend or revoke joint committee regulations.
- (2) But the Welsh Ministers may make regulations under subsection (1) only if –
  - (a) in the case of regulations that amend regulations made under section [section to be inserted by Amendment 105] (requested joint committee regulations), the conditions set out in section [section to be inserted by Amendment 123] are satisfied;
  - (b) in the case of regulations that amend regulations made under section [section to be inserted by Amendment 107] so as to specify, modify or omit a function, other than so as to –
    - (i) specify, modify or omit a function which relates to improving education or transport;
    - (ii) specify or omit the function of preparing a strategic development plan;
    - (iii) specify or omit the economic well-being function,the conditions set out in section [section to be inserted by Amendment 123] are satisfied;



- (c) in any other case (including the case of regulations that amend regulations under section [section to be inserted by Amendment 107] to impose, modify or omit a prohibition, restriction or other limitation on the exercise of the economic well-being function), the conditions set out in section [section to be inserted by Amendment 124] are satisfied.
- (3) Regulations under subsection (1) may not amend joint committee regulations so as to specify a function unless it is –
- (a) a function of the principal councils in the corporate joint committee’s area;
  - (b) the economic well-being function;
  - (c) in the case of regulations that amend regulations made under section [section to be inserted by Amendment 107], the function of preparing a strategic development plan.
- (4) Regulations under subsection (1) which amend joint committee regulations so as to specify a function of a principal council must make provision so that the function is either –
- (a) exercisable by the corporate joint committee instead of by the principal councils in the corporate joint committee’s area, or
  - (b) exercisable concurrently by the corporate joint committee and those principal councils.
- (5) Regulations under subsection (1) may amend joint committee regulations so as to specify a function of a principal council by reference to a particular activity or activities.
- (6) Regulations under subsection (1) which –
- (a) amend joint committee regulations so as to omit a function specified in those joint committee regulations, or
  - (b) revoke joint committee regulations (so as to abolish the corporate joint committee established by those regulations),
- may provide that a function which will cease to be exercisable by the corporate joint committee, other than the economic well-being function or the function of preparing a strategic development plan, is to be exercisable by another person.
- (7) The Welsh Ministers may by regulations revoke regulations made under this section.’.

Tudalen 47, llinell 17, hepgorer adran 82 a mewnosoder –

**[ ] Diwygio a dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor.
- (2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (1) onid yw –
- (a) yn achos rheoliadau sy’n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 105] (rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt), yr amodau a nodir yn adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 123] wedi eu bodloni;



- (b) yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 107*] er mwyn pennu, addasu neu hepgor swyddogaeth, ac eithrio er mwyn—
- (i) pennu, addasu neu hepgor swyddogaeth sy'n ymwneud â gwella addysg neu drafnidiaeth;
  - (ii) pennu neu hepgor y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol;
  - (iii) pennu neu hepgor y swyddogaeth llesiant economaidd,
- yr amodau a nodir yn adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 123*] wedi eu bodloni;
- (c) mewn unrhyw achos arall (gan gynnwys yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau o dan adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 107*] er mwyn gosod, addasu neu hepgor gwaharddiad, cyfyngiad neu derfyn arall ar arfer y swyddogaeth llesiant economaidd), yr amodau a nodir yn adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 124*] wedi eu bodloni.
- (3) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth—
- (a) onid yw honno yn swyddogaeth i'r prif gynghorau yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig;
  - (b) onid honno yw'r swyddogaeth llesiant economaidd;
  - (c) yn achos rheoliadau sy'n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran [*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 107*], onid honno yw'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol.
- (4) Rhaid i reoliadau o dan is-adran (1) sy'n diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth prif gyngor wneud darpariaeth fel bod y swyddogaeth naill ai—
- (a) yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig yn hytrach na chan y prif gynghorau yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, neu
  - (b) yn arferadwy yn gyddredol gan y cyd-bwyllgor corfforedig a'r prif gynghorau hynny.
- (5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu swyddogaeth prif gyngor drwy gyfeirio at weithgaredd neu weithgareddau penodol.
- (6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) sydd—
- (a) yn diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn hepgor swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau cyd-bwyllgor hynny, neu
  - (b) yn dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor (er mwyn diddymu'r cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd gan y rheoliadau hynny),
- ddarparu y bydd swyddogaeth a fydd yn peidio â bod yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig, ac eithrio'r swyddogaeth llesiant economaidd neu'r swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, yn arferadwy gan berson arall.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddirymu rheoliadau a wnaed o dan yr adran hon.'





**Julie James**

**123**

Page 48, after line 13, insert a new section –

**[ ] Conditions to be met before amending joint committee regulations: application required from principal councils**

- (1) The conditions mentioned in section [section to be inserted by Amendment 122](2)(a) and (b) are as follows.
- (2) The first condition is that the Welsh Ministers have received an application under section [section to be inserted by Amendment 120] to amend the joint committee regulations.
- (3) The second condition is that the Welsh Ministers have consulted such persons as they consider appropriate on a draft of the regulations.
- (4) The third condition is that the principal councils which made the application have each given consent in writing to the regulations being made.
- (5) The fourth condition is that, if the conditions in subsections (2) to (4) are satisfied and the Welsh Ministers intend to make the regulations, they have given notice of their intention to the corporate joint committee.’.

Tudalen 48, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Yr amodau sydd i’w bodloni cyn diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor: cais gan brif gynghorau yn ofynnol**

- (1) Mae’r amodau a grybwyllir yn adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 122](2)(a) a (b) fel a ganlyn.
- (2) Yr amod cyntaf yw bod Gweinidogion Cymru wedi cael cais o dan adran [[yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 120] i ddiwygio’r rheoliadau cyd-bwyllgor.
- (3) Yr ail amod yw bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy ar ddrafft o’r rheoliadau.
- (4) Y trydydd amod yw bod pob un o’r prif gynghorau a wnaeth y cais wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig i’r rheoliadau gael eu gwneud.
- (5) Y pedwerydd amod yw, os yw’r amodau yn is-adrannau (2) i (4) wedi eu bodloni a bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y rheoliadau, eu bod wedi rhoi hysbysiad o’u bwriad i’r cyd-bwyllgor corfforedig.’.

**Julie James**

**124**

Page 48, after line 13, insert a new section –

**[ ] Conditions to be met before amending or revoking joint committee regulations: no application required from principal councils**

- (1) The conditions mentioned in section [section to be inserted by Amendment 122](2)(c) are as follows.





- (2) The first condition is that the Welsh Ministers have consulted such persons as they consider appropriate on a draft of the regulations.
- (3) The second condition is that, if the condition in subsection (2) is satisfied and the Welsh Ministers intend to make the regulations, they have given notice of their intention to –
  - (a) the principal councils in the corporate joint committee’s area,
  - (b) if the regulations will amend joint committee regulations to specify a principal area –
    - (i) the principal council for that area, and
    - (ii) if the corporate joint committee has, or under the regulations will have, the function of preparing a strategic development plan, the National Park authority for a National Park any part of which is in that area,
  - (c) if the regulations will amend regulations made under section [section to be inserted by Amendment 107] to specify or omit the function of preparing a strategic development plan, the National Park authority for a National Park any part of which is in the corporate joint committee’s area, and
  - (d) the corporate joint committee.’.

Tudalen 48, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Yr amodau sydd i’w bodloni cyn diwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor: nid yw cais gan brif gynghorau yn ofynnol**

- (1) Mae’r amodau a grybwyllir yn adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 122](2)(c) fel a ganlyn.
- (2) Yr amod cyntaf yw bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy ar ddrafft o’r rheoliadau.
- (3) Yr ail amod yw, os yw’r amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni a bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y rheoliadau, eu bod wedi rhoi hysbysiad o’u bwriad i –
  - (a) y prif gynghorau yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig,
  - (b) os bydd y rheoliadau’n diwygio rheoliadau cyd-bwyllgor er mwyn pennu prif ardal –
    - (i) y prif gyngor ar gyfer yr ardal honno, a
    - (ii) os oes gan y cyd-bwyllgor corfforedig y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, neu os bydd ganddo’r swyddogaeth honno o dan y rheoliadau, yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono o fewn yr ardal honno,
  - (c) os bydd y rheoliadau’n diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 107] er mwyn pennu neu hepgor y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol, yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono o fewn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig, a
  - (d) y cyd-bwyllgor corfforedig.’.



**Julie James** 125

Section 83, page 48, line 19, leave out 'particular joint committee regulations or particular' and insert 'joint committee regulations or'.

Adran 83, tudalen 48, llinell 22, hepgorer 'penodol neu reoliadau penodol' a mewnosoder 'neu reoliadau'.

**Julie James** 126

Section 83, page 48, line 23, leave out subsection (3) and insert –

'( ) Regulations under subsection (2) may make provision applying in relation to –

- (a) all corporate joint committees;
- (b) a particular corporate joint committee;
- (c) a particular description of corporate joint committee.'

Adran 83, tudalen 48, llinell 25, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder –

'( ) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth sy'n gymwys mewn perthynas ag –

- (a) pob cyd-bwyllgor corfforedig;
- (b) cyd-bwyllgor corfforedig penodol;
- (c) cyd-bwyllgor corfforedig o ddisgrifiad penodol.'

**Julie James** 127

Section 83, page 48, after line 27, insert –

'( ) Regulations under subsection (2) may also make provision imposing a prohibition, restriction or other limitation on the exercise of the economic well-being function by a corporate joint committee granted that function.'

Adran 83, tudalen 48, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

'( ) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth hefyd sy'n gosod gwaharddiad, cyfyngiad neu derfyn arall ar arfer y swyddogaeth llesiant economaidd gan gyd-bwyllgor corfforedig y rhoddwyd y swyddogaeth honno iddo.'

**Julie James** 128

Section 83, page 48, line 28, leave out '(3)' and insert '(2)'.

Adran 83, tudalen 48, llinell 31, hepgorer '(3)' a mewnosoder '(2)'.

**Julie James** 129

Section 83, page 48, after line 35, insert –

'( ) from a National Park authority to a corporate joint committee;'

Adran 83, tudalen 48, ar ôl llinell 38, mewnosoder –



'() o awdurdod Parc Cenedlaethol i gyd-bwyllgor corfforedig;'

**Julie James** 130

Section 83, page 49, line 3, after '82', insert ', or a National Park authority'.

Adran 83, tudalen 49, llinell 3, ar ôl 'hynny', mewnosoder ', neu i awdurdod Parc Cenedlaethol'.

**Julie James** 131

Section 83, page 49, line 14, after '82', insert ', or one or more National Park authorities'.

Adran 83, tudalen 49, llinell 14, ar ôl 'hynny', mewnosoder ', neu un awdurdod Parc Cenedlaethol neu ragor'.

**Julie James** 132

Section 83, page 49, after line 16, insert –

'() from a National Park authority to a corporate joint committee;'

Adran 83, tudalen 49, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'() o awdurdod Parc Cenedlaethol i gyd-bwyllgor corfforedig;'

**Julie James** 133

Section 83, page 49, line 21, after '82', insert ', or a National Park authority'.

Adran 83, tudalen 49, llinell 20, ar ôl 'hynny', mewnosoder ', neu i awdurdod Parc Cenedlaethol'.

**Julie James** 134

Section 83, page 49, after line 26, insert –

'() a corporate joint committee as the same person in law as a National Park authority;'

Adran 83, tudalen 49, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

'() cyd-bwyllgor corfforedig fel yr un person mewn cyfraith ag awdurdod Parc Cenedlaethol;'

**Julie James** 135

Section 83, page 49, line 31, after '82', insert ', or a National Park authority'.

Adran 83, tudalen 49, llinell 29, ar ôl 'hynny;', mewnosoder 'neu awdurdod Parc Cenedlaethol,'.



**Julie James** 136

Section 83, page 49, after line 31, insert—

- ( ) about things which a corporate joint committee may or must do that are supplementary or incidental to the functions of the committee specified in joint committee regulations by virtue of section [section to be inserted by Amendment 105] (1), [section to be inserted by Amendment 107](1) or [section to be inserted by Amendment 122](1);’.

Adran 83, tudalen 49, ar ôl llinell 30, mewnosoder—

- ( ) ynglŷn â phethau y caiff cyd-bwyllgor corfforedig eu gwneud neu y mae rhaid iddo eu gwneud sy’n atodol i swyddogaethau’r pwyllgor a bennir mewn rheoliadau cyd-bwyllgor yn rhinwedd adran [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 105](1), [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 107](1) neu [yr adran sy’n cael ei mewnosod gan Welliant 122](1), neu sy’n gysylltiedig â hwy;’.

**Julie James** 137

Section 83, page 49, line 32, after ‘council’, insert ‘, a National Park authority’.

Adran 83, tudalen 49, llinell 31, ar ôl ‘gyngor’, mewnosoder ‘, awdurdod Parc Cenedlaethol’.

**Julie James** 138

Section 83, page 49, line 34, after ‘council’, insert ‘, a National Park authority’.

Adran 83, tudalen 49, llinell 33, ar ôl ‘gyngor’, mewnosoder ‘, awdurdod Parc Cenedlaethol’.

**Julie James** 139

Section 83, page 49, line 37, leave out ‘the establishment of a corporate joint committee’ and insert ‘a function becoming, or ceasing to be, exercisable by a corporate joint committee’.

Adran 83, tudalen 49, llinell 36, hepgorer ‘cyd-bwyllgor sefydlu’ a mewnosoder ‘swyddogaeth sy’n dod, neu’n peidio â bod, yn arferadwy gan gyd-bwyllgor’.

**Julie James** 140

Section 83, page 50, line 8, leave out ‘or (3)’.

Adran 83, tudalen 50, llinell 8, hepgorer ‘neu (3)’.



**Julie James** 141

Section 85, page 50, line 22, after 'council', insert ' a National Park authority'.

Adran 85, tudalen 50, llinell 23, ar ôl 'gyngor', mewnosoder ' , awdurdod Parc Cenedlaethol'.

**Julie James** 142

Section 86, page 50, after line 30, insert—

'(2) A National Park authority must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers for the purposes of Chapter 4 and this Chapter.'

Adran 86, tudalen 50, ar ôl llinell 31, mewnosoder—

'(2) Rhaid i awdurdod Parc Cenedlaethol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion Pennod 4 a'r Bennod hon.'

**Julie James** 143

Section 87, page 51, line 2, leave out 'under section 75'.

Adran 87, tudalen 51, llinell 2, hepgorer 'o dan adran 75'.

**Julie James** 144

Section 87, page 51, after line 3, insert—

- '(c) making an application under section [section to be inserted by Amendment 120] to amend or revoke joint committee regulations;
- (d) giving consent under section [section to be inserted by Amendment 123](4) to joint committee regulations being amended.'

Adran 87, tudalen 51, ar ôl llinell 3, mewnosoder—

- '(c) gwneud cais o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 120] i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor;
- (d) rhoi cydsyniad o dan adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 123](4) i reoliadau cyd-bwyllgor gael eu diwygio.'



**Julie James**

**145**

Page 51, after line 3, insert a new section –

*'Amendments of other enactments*

**[ ] Amendments relating to strategic planning and joint transport authorities**

- (1) Part 1 of Schedule [*Schedule to be inserted by Amendment 155*] makes provision amending the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5) and other enactments to –
  - (a) repeal the powers of the Welsh Ministers to establish strategic planning panels and strategic planning areas, and
  - (b) provide for the grant of functions relating to the preparation of strategic development plans to certain corporate joint committees.
- (2) Part 2 of Schedule [*Schedule to be inserted by Amendment 155*] makes provision amending other enactments to repeal the power of the Welsh Ministers to establish joint transport authorities.'

Tudalen 51, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd –

*'Diwygiadau i ddeddfiadau eraill*

**[ ] Diwygiadau sy'n ymwneud â chynllunio strategol a chyd-awdurdodau trafndiaeth**

- (1) Mae Rhan 1 o Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 155*] yn gwneud darpariaeth sy'n diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a deddfiadau eraill er mwyn –
  - (a) diddymu pwerau Gweinidogion Cymru i sefydlu paneli cynllunio strategol ac ardaloedd cynllunio strategol, a
  - (b) darparu ar gyfer rhoi swyddogaethau sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu strategol i gyd-bwyllgorau corfforedig penodol.
- (2) Mae Rhan 2 o Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan Welliant 155*] yn gwneud darpariaeth sy'n diwygio deddfiadau eraill er mwyn diddymu pŵer Gweinidogion Cymru i sefydlu cyd-awdurdodau trafndiaeth.'

**Julie James**

**146**

Section 112, page 64, after line 2, insert –

'(h) section 33 (information sharing); and in consequence, in section 156 of this Act omit subsection (10).'

Adran 112, tudalen 64, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

'(h) adran 33 (rhannu gwybodaeth); ac o ganlyniad, yn adran 156 o'r Ddeddf hon hepgorer is-adran (10).'



**Julie James** 147

Section 156, page 97, after line 1, insert –

- ‘(10) Section 33 of the 2009 Measure (information sharing) ceases to have effect, other than for the purposes of the sharing of information and documents –
- (a) obtained by or produced to the Auditor General for Wales in the course of the exercise of functions under sections 17 to 19 of the 2009 Measure, or
  - (b) for the purpose of the exercise by the Auditor General for Wales of those functions.’

Adran 156, tudalen 97, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘(10) Mae adran 33 o Fesur 2009 (rhannu gwybodaeth) yn peidio â chael effaith, ac eithrio at ddibenion rhannu gwybodaeth a dogfennau –
- (a) a gafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu a ddangoswyd iddo wrth arfer swyddogaethau o dan adrannau 17 i 19 o Fesur 2009, neu
  - (b) at ddiben arfer y swyddogaethau hynny gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.’

**Julie James** 148

Section 171, page 107, after line 3, insert –

‘() Part 5’.

Adran 171, tudalen 107, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘() Rhan 5’.

**Julie James** 149

Section 171, page 107, after line 4, insert –

- ‘() section 156, other than –
- (i) subsection (4)(b) and (c);
